



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Amodau Safonol Grant ar gyfer grantiau prosiect i Sefydliadau (Amodau)

Rhagfyr 2019



Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

Cynnwys

1	Cynnig grant a ffurf y cytundeb	4
2	Amodau Cynnig Grant	4
3	Eich ymgymeraethau	5
4	Diffygdlu	11
5	Datgelu Gwybodaeth	11

1 Cynnig grant a ffurf y cytundeb

- 1.1 Mae cynnig y grant sydd yn llythyr cynnig y grant hwn yn agored i'w dderbyn am gyfnod o bedair wythnos galendr o ddyddiad y llythyr heblaw bod Cyngor Celfyddydau Cymru ('y ni') wedi rhoi rhagor o amser ichi mewn ysgrifen. Os na chawn mewn ysgrifen lythyr derbyn cynnig y grant, wedi'i lofnodi gan swyddog awdurdodedig y sefydliad a dderbyn y cynnig ('y chi'), gallwn yn ôl ein disgresiwn ein hunain dynnu'n ôl cynnig y grant ar unwaith drwy eich hysbysu o'r ffaith mewn ysgrifen.
- 1.2 Dyma holl gytundeb ('y cytundeb') rhyngom ni a chi am y cynnig ei hun a'r defnydd a ganiateir o'r grant:
- yr amodau hyn
 - y llythyr cynnig grant (a allai gynnwys amodau ychwanegol penodol i'r cynnig)
 - eich cais am grant
- 1.3 Pan gawn y derbyniad ysgrifenedig o'n cynnig grant gennych ('derbyniad y grant') drwy e-bost neu drwy'r post, bydd y ddau ohonom yn ymrwymedig gan y cytundeb.

2 Amodau Cynnig Grant

Wrth gydnabod y derbyniwch gynnig y grant a chytuno i fod yn ymrwymedig gan delerau'r cytundeb, cytunwn i dalu'r grant a grybwyllwyd yn llythyr cynnig y grant yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:

- 2.1 Mae'r cytundeb rhyngom yn benodol i chi. Ni allwch drosglwyddo neu aseinio ei fudd i unrhyw berson neu sefydliad arall ond gallwn ninnau aseinio neu drosglwyddo'r cytundeb neu unrhyw un o'n hawliau dano.
- 2.2 Ni allwn dalu am nwyddau neu wasanaethau a brynwyd neu a archebwyd ar gyfer y gweithgarwch a gytunwyd cyn inni gael eich derbyniad grant.
- 2.3 Gallwn newid swm y grant yng ngoleuni unrhyw newidiadau sylweddol yng nghynlluniau neu amgylchiadau eich sefydliad (gweler Amod 3.1) neu unrhyw fethiant â chydymffurfio â gofynion gwybodaeth a ddisgrifir yn y llythyr cynnig grant.
- 2.4 Swm y grant a ysgrifennir yn llythyr cynnig y grant yw'r mwyafswm a dalwn am raglen y gweithgarwch a gytunwyd. Ond os yw'r gost ar ddiwedd y gweithgarwch a gytunwyd yn llai na'r hyn a gytunwyd yn wreiddiol, cadwn yr hawl i wneud gostyngiad priodol i'n grant. Fel arfer, hon fydd yr un ganran o gyfanswm costau

cymwys rhaglen y gweithgarwch a gytunwyd y cytunasom ei thalu. Penderfynwn a hawliwn hyn yn ôl a chymryd i ystyriaeth a allwch ddefnyddio'r grant i gyflawni gweithgareddau a gymeradwywn sy'n gysylltiedig â'r grant gwreiddiol. Rhaid ichi beidio â bwrw ymlaen gydag unrhyw weithgareddau ychwanegol nes ichi gael ein cymeradwyaeth ysgrifenedig.

- 2.5 Ni thalwn am gostau anghymwys ac adhawliwn oddi wrthyhch unrhyw ran o'r grant a ddefnyddiwyd neu a hawliwyd am y fath gostau. Y chi sy'n gyfrifol am wirio bod pob un o'ch costau'n gwmwys cyn gwario neu addo gwario.
- 2.6 Nid oes raid inni dalu unrhyw grant ichi heblaw i'r graddau y parhawn i dderbyn arian digonol oddi wrth Lywodraeth Cymru a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993.
- 2.7 Os nad ydych, yn y naw mis o ddyddiad cynnig ein grant, wedi cyflawni gofynion talu ar gyfer y grant yn llawn neu'n rhannol neu wedi cadarnhau mewn ysgrifen inni pryd y cyflawnwch y gofynion hyn (ac yr ydym ninnau wedi derbyn eich esboniad), gallwn (yn ôl ein disgrisiwn ein hunain) dynnu'r grant yn ôl a dod â'r cytundeb hwn i ben drwy roi rhybudd mis ichi'n ysgrifenedig.
- 2.8 Y chi sy'n gyfrifol am reoli eich busnes eich hunain a rhaid ichi beidio â chymryd yn ganiataol fod eich busnes yn ariannol sefydlog hyd yn oed os parhawn i'w gefnogi. Rhaid ichi gael cyngor da pryd bynnag mae arnoch ei eisiau fel y gallwch gynnal eich busnes yn gyfreithiol gyda diwydrwydd dyladwy. Dylech gael cyngor proffesiynol am eich sefyllfa dreth os ydych yn ansicr am unrhyw ymrwymedigaeth a allai godi. Ni chymer ein staff, ein haelodau na'n hymgyngorwyr ran mewn cyflawni eich busnes ac ni fydd modd eu dal yn gyfrifol amdano.

3 Eich ymgymeraethau

Mewn cydnabyddiaeth o'r grant a gynnigir ichi, rhaid ichi ymrwymo i wneud y canlyno

- 3.1 Defnyddio'r grant yn unig at ddibenion rhaglen y gweithgarwch a gytunwyd yn eich cais am grant a llythyr cynnig y grant a gweithredu a gorffen y rhaglen yn unol â manylion sydd yn y dogfennau.
- 3.2 Rhoi gwybod inni ar unwaith os oes unrhyw newidiadau sylweddol yn eich amgylchiadau neu'ch cynlluniau (gan gynnwys dyddiadau dechrau a diwedd) sy'n effeithio ar raglen y gweithgarwch a gytunwyd, neu os hoffech newid unrhyw beth sylweddol yn rhaglen y gweithgarwch a gytunwyd. Rhaid ichi beidio â gweithredu unrhyw newidiadau i raglen y gweithgarwch a gytunwyd nes ichi dderbyn ein cymeradwyaeth ysgrifenedig am y fath newid. Rydym yn cadw'r hawl i newid neu dynnu'n ôl y grant a gynnigir naill ai os na chytunwn â'r newid neu os ydym o'r farn nad yw'r newid yn rhesymol o ran y grant a gynnigir.

3.3 Cytunwch i wneud y canlynol tra bo'r cytundeb hwn yn bodoli ac mewn grym:

(a) Cydymffurfio â phob deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys deddfau sy'n ymwneud â'r meysydd hyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- cyflogi staff
- bod yn ddeiliad trwydded neu reolwr ar gyfer unrhyw adeilad
- iechyd a diogelwch
- cyfle cyfartal
- gwahaniaethu ar sail
- oed
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhywedd
- cyfeiriadedd rhywiol
- neu fel arall
- amddiffyn plant, pobl ifainc ac oedolion hygllwyf

(b) Cael pob ac unrhyw drwydded, tystysgrif, caniatâd ac yswiriant sy'n ofynnol dan y gyfraith

(c) Cydymffurfio â phob dyletswydd sy'n gysylltiedig â hawlfraint a hawliau perfformio cyn belled â'u bod yn effeithio ar raglen y gweithgarwch a gytunwyd

(d) Darparu inni, pan ofynnwn, unrhyw dystiolaeth o gydymffurfio â'r uchod

- 3.4 Cael a gweithredu polisi cyfle cyfartal a adolygwyd ac a ddiweddarwyd gan eich bwrdd neu'ch pwyllgor rheoli yn y tair blynedd diwethaf ac sy'n cydymffurfio â phob deddfwriaeth berthnasol a rhoi inni dystiolaeth pan ofynnwn amdani am ganlyniadau'r polisi ar draws pob agwedd ar eich gweithgareddau. Dylech ddilyn yr ymarfer gorau yn y maes hwn drwy gyfeirio at Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac unrhyw sefydliad perthnasol arall.
- 3.5 Mabwysiadu a gweithredu polisi ysgrifenedig a set o weithdrefnau i amddiffyn plant, pobl ifainc ac oedolion hyglwyf ac ystyried unrhyw beryglon posibl sy'n gysylltiedig â rhaglen y gweithgarwch a gytunwyd a chymryd camau priodol i amddiffyn pawb sy'n ymwneud â hi. Rhan o'r gweithdrefnau hyn fydd y rheidrwydd arnoch i wirio cefndir unrhyw un o'ch staff sydd mewn swydd (neu sy'n cael ei ystyried ar gyfer swydd) boed yn ffurfiol neu anffurfiol, gwirfoddol neu gyflogedig sy'n gymwys i gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae canllawiau am y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael yma: <https://www.gov.uk/dbs-check-applicant-criminal-record>. Rhaid ichi wneud unrhyw ddatgeliadau yn ôl Deddf y Plant 2004.
- 3.6 Cyflogi staff gyda'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i ddarparu rhaglen y gweithgarwch a gytunwyd a gwarchod y grant a dalwyd neu sy'n daladwy ichi ac asedau eich sefydliad. Hefyd rhaid ichi geisio sicrhau y cyflogir staff ar delerau ac amodau sydd gystal neu'n well na'r rhai a gytunwyd gan unrhyw undeb llafur neu gymdeithas y gweithwyr perthnasol.
- 3.7 Pan olyga'r rhaglen o weithgarwch a gytunwyd y prynwch nwyddau a gwasanaethau, dylech ddilyn proses gystadleuol (sef cael dyfynbrisiau ffurfiol oddi wrth sawl busnes neu gyflenwr) heblaw bod hyn yn amhriodol am ryw reswm. Gall y rhesymau gynnwys lefel 'de minimus' (sef y cytunai'r rhan fwyaf o bobl fod y drafferth o fynd ati i gael dyfynbrisiau ffurfiol yn ormod), rhesymau technegol neu artistig neu warchod hawliau neilltuol rhywun. Os ydych yn gorff cyhoeddus rhaid ichi gydymffurfio â deddfwriaeth ddomestig ac Ewropeaidd berthnasol ar gaffael a chystadleuaeth.
- 3.8 Wrth ymrwymo wrth y cytundeb hwn, cytunwch i gydymffurfio â'n gofynion talu a monitro sydd yn llythyr cynnig y grant a darparu inni'n brydlon unrhyw wybodaeth y gofynnwn amdani i fonitro defnydd y grant am hyd rhaglen y gweithgarwch a gytunwyd ac am flwyddyn ar ôl ichi gyflwyno adroddiad diweddu (at ei gilydd, y cyfnod monitro) (gweler 3.14).
- 3.9 Sicrhau bod system o reolaeth ariannol ddigonol ar waith a chadw cofnodion cywir ac archwiliadwy o bob incwm a gwariant mewn perthynas â'r gweithgarwch a gytunwyd a chyflwyno inni, ar gais, anfonebau gwreiddiol a dalwyd i ategu eich hawliadau am dalu'r grant (cytunwn i ddychwelyd yr anfonebau atoch ar ôl inni eu gwirio).

- 3.10 Darparu inni adroddiadau cynnydd rheolaidd ac unrhyw wybodaeth bellach, ar gais, a fydd arnom ei hangen o bryd i'w gilydd yn ystod rhaglen y gweithgarwch a gytunwyd a darparu inni adroddiad diweddu â phob incwm a gwariant mewn pedair wythnos ar ôl ichi ddiweddu rhaglen y gweithgarwch a gytunwyd. Ni allwn ystyried unrhyw geisiadau oddi wrthy ch yn y dyfodol os bydd unrhyw ofynion monitro heb eu diwallu o ran y gweithgarwch hwn neu unrhyw weithgarwch arall a ariannwyd.
- 3.11 Rhaid ichi sicrhau bod pob datganiad ariannol blynyddol a gyflwynir inni wedi'i baratoi yn unol â safonau cyfrifyddu perthnasol gan gynnwys y datganiad cyfredol am ymarfer a argymhellir sy'n berthnasol i elusennau ac unrhyw ofynion cyfreithiol neu gyfansoddiadol a rhaid ichi nodi ar wahân y grant a gewch gennym neu a ddisgwyliwch gennym.
- 3.12 Peri bod eich cofnodion ariannol ar gael inni eu harchwilio ar unrhyw bryd ac, ar ôl rhybudd rhesymol ymlaen llaw, gan ein harchwilwyr mewnol, Llywodraeth Cymru neu Swyddfa Archwilio Cymru.
- 3.13 Caniatáu i'n cynrychiolwyr fynychu unrhyw ran o raglen y gweithgarwch a gytunwyd at ddibenion adolygu ansawdd. Talwn am unrhyw docynnau sydd eu hangen.
- 3.14 Monitro a gwerthuso llwyddiant rhaglen y gweithgarwch a gytunwyd a rhoi inni unrhyw wybodaeth sydd arnom ei heisiau i'n bodloni bod rhaglen y gweithgarwch a gytunwyd wedi'i chwblhau'n llwyddiannus a chywir yn ôl y cytundeb hwn.
- 3.15 Ein caniatáu, yn ôl ein hangen, i ymgymryd â gwerthusiad ffurfiol o'ch sefydliad yn unol â'n canllawiau sefydledig at y dibenion hyn a chydweithio â ni yn y broses hon.
- 3.16 Caniatáu inni yn ystod cyfnod y monitro (gweler paragraff 3.8), ac ar gais, anfon sylwedydd at bob cyfarfod o'ch bwrdd neu'ch pwyllgor rheoli ac unrhyw bwyllgorau eraill (gan gynnwys pob is-bwyllgor a phwyllgor penodi) ac anfon atom gopi o'r holl hysbysiadau am gyfarfodydd, agendâu, dogfennau a chofnodion ar yr un pryd ag yr anfonir y rhain at yr aelodau yn unol â chyfarwyddiadau a rown ichi o bryd i'w gilydd a noda at bwy y dylech anfon y fath ddogfennau. Cynnwys hyn ddogfennau hwyr neu rai a gyflwynwyd.
- 3.17 Cynnal cyfarfodydd rheolaidd o'ch bwrdd neu'ch pwyllgor rheoli yn ystod y flwyddyn ariannol ac adolygu eich perfformiad a'ch sefyllfa ariannol yn y cyfarfodydd hyn.
- 3.18 Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy gydnabod y grant ar bob deunydd ar-lein a digidol ac unrhyw byst perthnasol ar y cyfryngau cymdeithasol ac unrhyw hysbysebu recriwtio yn unol â'r canllawiau amgaeedig gyda'r llythyr cynnig grant.

Mae'r canllawiau hyn ar gael hefyd yn www.celf.cymru neu oddi wrth: cyfathrebu@celf.cymru Rhaid ichi geisio cytundeb ar ddatganiadau i'r wasg sy'n cyhoeddi'r grant â'r swyddogion cyfathrebu: cyfathrebu@celf.cymru Rhannwch bob datganiad i'r wasg sy'n ymwneud â'r grant â: cyfathrebu@celf.cymru a'u huwchlwytho i'n gwefan celf.cymru. Cysylltwch â'r cyfeiriad hwn i gael gwybod sut i uwchlwytho ac am sut i nodi hashnodau ac enwau ar y cyfryngau cymdeithasol fel y gallwn ni gefnogi eich gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol.

- 3.19 Peidio â defnyddio cydnabyddiaeth y grant neu unrhyw gyfeiriadau atom i awgrymu mewn unrhyw ffordd ein bod yn ymgymryd â chyfrifoldeb neu ei dderbyn i drydydd partion am eich dyledion neu'ch rhwymedigaethau.
- 3.20 Cydweithio mewn unrhyw ymchwil bona fide a wnawn neu a wneir ar ein rhan.
- 3.21 Rhoi inni luniau cysylltiedig â rhaglen y gweithgarwch a gytunwyd (os byddant ar gael). Dylid anfon y lluniau hyn at: cyfathrebu@celf.cymru ac fe'u cynhwysir yn ein llyfrgell luniau. Rhaid cydnabod y ffotograffydd neu'r cynhyrchydd a rhaid ichi gael eu caniatâd cyn eu trosglwyddo i ni fel y gallwn ni gyhoeddi unrhyw luniau.
- 3.22 Heblaw inni ddweud wrthy ch yn wahanol yn ysgrifenedig, sicrhau yr hysbysebwr unrhyw swydd newydd neu wag yn gyhoeddus ac y llenwir hwy drwy gyfweiliadau cystadleuol. Rhaid ichi anfon atom fanylion, disgrifiadau swydd a threfniadau cyfweld i benodi'r uwch weithwyr yn eich sefydliad a nodwn o bryd i'w gilydd a chaniatáu i'n cynrychiolydd fod yn sylwedydd yn y broses gyfweld.
- 3.23 Cynnal rhaglen y gweithgarwch a gytunwyd yn unol â Deddf y Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fel sy'n gymwys i'ch sefydliad o bryd i'w gilydd a serch hynny i gydymffurfio ag ysbryd y statudau fel y cynhelir rhaglen y gweithgarwch a gytunwyd i'r graddau ymarferol eithaf ar sail cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ac yn yr egwyddor hon yr adlewyrcha rhaglen y gweithgarwch a gytunwyd gymeriad ieithyddol y gwaith a bod dehongliad priodol ar gael i'r gymuned y digwydd y gweithgarwch ynddi a'r cynulleidfaoedd a dargedwch.
- 3.24 Darparu gwybodaeth graidd ddwyieithog a chydag amlygrwydd cyfartal sy'n berthnasol i raglen y gweithgarwch a gytunwyd. Dyma ddiffiniad o wybodaeth graidd:
 - dyddiad ac amser (os ydynt mewn geiriau)
 - lleoliad
 - proses archebu
 - manylion cyswllt y sefydliad/trefnydd

- sut i gyrraedd
- hygyrchedd cyhoeddus
- parcio
- trefniadau i ymwelwyr anabl

Mae hyn yn gymwys i bob deunydd marchnata a chyhoedduswydd gan gynnwys:

- datganiadau i'r wasg
- taflenni
- posterï
- cardiau post
- DVDau
- gwefannau
- e-farchnata
- y cyfryngau cymdeithasol
- rhaglenni digwyddiadau

3.25 Gwneud pob deunydd cyhoedduswydd yn hygyrch drwy ddilyn y canllawiau arbenigol. Mae nifer o ddogfennau ar ein gwefan sy'n cynnig cymorth: <https://arts.wales/cy/amdanom-ni/strategy/cydraddoldeb> a manylion cyswllt ar gyfer sefydliadau arbenigol a allai gynnig cymorth gyda gwneud eich cyhoedduswydd yn hygyrch. Mae hyn yn gymwys i bob deunydd marchnata a chyhoedduswydd gan gynnwys:

- datganiadau i'r wasg
- taflenni
- posterï
- cardiau post
- DVDau

- gwefannau
- e-farchnata
- y cyfryngau cymdeithasol
- rhaglenni digwyddiadau

4 Diffygdalu

Yn ein disgrisiwn absoliwt gallwn, ar unrhyw adeg a heb ymrwymiad o ran unrhyw hawliau eraill a allai fod gennym yn eich erbyn, naill ai gofyn ichi ddychwelyd y cyfan neu ran o unrhyw grant a dalasom ichi a/neu ddal yn ôl unrhyw daliadau grant heb eu talu eto pe cwyd unrhyw un o'r digwyddiadau diffygdalu canlynol:

- 4.1 Rydych wedi methu â chadw unrhyw un o'ch ymgymeraethau inni, boed iddynt ymddangos ym mharagraff 3 o'r amodau hyn neu'n ofynnol dan amodau ychwanegol sydd yn ein llythyr cynnig grant
- 4.2 Os cawn fod unrhyw wybodaeth neu gynrychiolaeth a ddarparasoch inni sy'n gysylltiedig â'r grant (neu y credwn rywfodd ei bod yn rhan o'r cytundeb) yn dwyllodrus, anghywir neu gamarweiniol mewn unrhyw fanylyn sylweddol
- 4.3 Rydych wedi ymddwyn mewn ffordd anghyfreithlon, dwyllodrus neu'n esgeulus ar unrhyw adeg yn ystod rhaglen y gweithgarwch a gytunwyd a chredwn fod hyn wedi effeithio'n sylweddol ar y gweithgarwch a gytunwyd neu'n debygol o niweidio ein henw da ni neu'ch enw da chi
- 4.4 Rydych yn peidio â gweithredu am unrhyw reswm, mynd yn ansolfent, cael eich gwneud yn fethdalwr, mynd i ddwylo'r derbynnydd neu'r gweinyddwyr, neu'n cael eich diddymu, gwneud trefniant â'ch credydwyr neu y rhoddir gweithred ymddiriedolaeth i gredydwyr neu yr atafaelir eich ystâd am resymau cyfreithiol

5 Datgelu Gwybodaeth

- 5.1 Mae gennym rwymedigaethau a chyfrifoldebau dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i ddarparu ar gais hygyrchedd i wybodaeth gofnodedig a ddaliwn. Un o ganlyniadau'r cyfrifoldebau statudol hynny yw y gall fod arnom angen datgelu gwybodaeth a ddaliwn am dderbynwyr grantiau, mewn ymateb i gais, oni phenderfynwn fod un o'r gwahanol eithriadau statudol yn gymwys. Pan gynnwys gwybodaeth, data a deunydd o unrhyw fath ddata personol neu ddata personol sensitif, yn ôl diffiniad y ddau derm yn Neddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, ni ddatgelwn, ar wahân i'r achosion a restrir isod, unrhyw wybodaeth gyfrinachol o'r fath i drydydd parti heb eich caniatâd.

- 5.2 Cytunwch y gallem ddatgelu i sefydliadau sy'n drydydd partiion awdurdodedig at ddibenion atal twyll wybodaeth a gawn gennych neu a ddaliwn yn barod amdanoch neu a gawn yn sgil unrhyw ymholiadau a wneir yn eich cylch.
- 5.3 Cytunwch y gall sefydliadau atal twyll a sefydliadau eraill y dadlennwn wybodaeth iddynt er atal twyll rannu'r fath wybodaeth â sefydliadau eraill er atal twyll. Er mwyn osgoi amheuaeth, o ran yr amod hwn mae 'gwybodaeth' yn cynnwys unrhyw wybodaeth a fernir ei bod yn ddata personol yn ôl Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.
- 5.4 Gallwn ddatgelu gwybodaeth os bydd arnom ddyletswydd i'w wneud neu os caniatâ'r gyfraith inni ei wneud.
- 5.5 Gallwch ofyn am gopi o'r wybodaeth a ddaliwn amdanoch. Os darganfyddir bod unrhyw wybodaeth bersonol a ddaliwn amdanoch yn anghywir, cywirwn y wybodaeth honno ac, os yw'n briodol, rhoddwn wybod i unrhyw drydydd parti yr ydym wedi rhannu'r wybodaeth hon ag ef ar eich rhan. Gweler ein Polisi Preifatrwydd am fanylion pellach.